| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Ebrill 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cyng. David Smith, Y Parth Cyhoeddus<br>Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Claire MacFarlane, Swyddog Cynllunio** |
| **Teitl:** | **Canllawiau Cynllunio Siopau Bwyd Tecawê Poeth - Mabwysiadu’r Ddogfen Derfynol** |

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae’r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad diweddar ynglŷn â fersiwn ddrafft y Canllawiau Cynllunio Atodol sy’n ymwneud â Siopau Bwyd Tecawê Poeth, gan gynnwys diwygiadau arfaethedig i’r Canllawiau Cynllunio Atodol, ac mae’n argymell eu mabwysiadu er mwyn galluogi’r canllawiau i gael eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

2.1 Yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, mae angen Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi’r polisïau perthnasol yn y cynllun. Bydd hyn yn rhoi arweiniad pellach i ddatblygwyr, i Swyddogion ac i Aelodau. Mae’r fersiwn o’r Canllawiau Cynllunio Atodol y bwriedir ei fabwysiadu wedi ei atodi i’r adroddiad yn Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod yr Aelodau’n mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol terfynol arfaethedig sy’n ymwneud â Siopau Bwyd Tecawê Poeth i'w defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mabwysiadodd y Cyngor y Canllawiau Cynllunio Atodol presennol ynglŷn â Siopau Bwyd Tecawê Poeth ym mis Mawrth 2003. Fodd bynnag, mae polisïau lleol a chenedlaethol ac arferion da wedi newid ers hynny. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn darparu canllawiau ynglŷn â datblygu siopau tecawê bwyd poeth newydd yn y Sir.

4.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â fersiwn ddrafft y Canllawiau Cynllunio Atodol am 11 wythnos rhwng 1 Rhagfyr 2014 a 13 Chwefror 2015.

Mae Adroddiad ar yr Ymgynghoriad, sy'n cynnwys crynodeb o bob ymateb a gafwyd wedi ei atodi yn Atodiad 2.

4.3 Cafwyd chwe ymateb yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, ni chynigir gwneud unrhyw newidiadau i fersiwn ddrafft y Canllawiau Cynllunio Atodol o ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn cyfrannu at y blaenoriaethau corfforaethol yn uniongyrchol ond byddant yn cael eu defnyddio wrth gynnal dichonoldeb a chymeriad canol trefi a byddant o gymorth i gefnogi'r agenda bwyta'n iach mewn ysgolion.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni ragwelir y bydd cytuno i fabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn creu unrhyw gost ychwanegol.

6.2 Unwaith y bydd wedi ei fabwysiadu, bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi canllawiau i ddatblygwyr, i Swyddogion ac i Aelodau ynglŷn â'r materion y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd hyn o gymorth i'r Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid atodi templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Ni chredir bod angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y penderfyniad hwn. Mae'r egwyddorion datblygu cyffredinol sy'n berthnasol i siopau bwyd tecawê poeth wedi cael eu sefydlu drwy fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhoi arweiniad pellach ynglŷn â sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mai 2011. Mae'r asesiad wedi ei lenwi wedi'i atodi yn Atodiad 3 yr adroddiad.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd, cysylltwyd yn uniongyrchol ag ystod eang o fudd-ddeiliaid a defnyddiwyd cyhoeddusrwydd i roi gwybod i'r cyhoedd. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad 2.

8.2 Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus, cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol cyn ac ar ôl y cyfnod hwn gyda Swyddogion yn y Tîm Gwarchod y Cyhoedd, y Tîm Rheoli Datblygu, y Tîm Economaidd a Datblygu Busnes, y Gwasanaeth Priffyrdd, y Tîm Ysgolion Iach a'r Gwasanaethau Arlwyo (prydau ysgol). Roedd Swyddogion o Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn rhan o ddatblygu fersiwn ddrafft y Canllawiau Cynllunio Atodol.

8.3 Mae mewnbwn Aelodau ynglŷn â chynnwys fersiwn ddrafft y Canllawiau Cynllunio Atodol hefyd ei wedi ddarparu trwy Grŵp Llywio'r Aelodau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a'r Pwyllgor Trwyddedu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r canllawiau terfynol gael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Heb ganllawiau cyfredol, mae perygl na fyddai'r Cyngor yn gallu gweithredu polisi'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithiol. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ynglŷn â Siopau Bwyd Tecawê Poeth yn ymwneud â pholisïau'r Cynllun Datblygu Unedol blaenorol, ac felly ni ellir dibynnu arnynt i ddarparu canllawiau cynllunio digonol dros y tymor hir.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).